Cyngor Tref
**Rhuddlan**
Town Council

**Cyngor Tref Rhuddlan – Cofnodion Cyfarfod y Gweithgor Diogelwch y Ffyrdd a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2023**

**Cyfarfod Hybrid**

**Yn bresennol:**
Y Cynghorydd Mike Elgin (Maer)
Y Cynghorydd Mike Kermode (Dirprwy Faer)
Y Cynghorydd Arwel Roberts
Clerc y Dref
Cynorthwyydd Clerigol /Clerc Cofnodion

Hefyd yn bresennol yn cynrychioli CSDd roedd Ed Parry, Peiriannydd Priffyrdd CSDd

**1. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Val Simmons

**2. Datgan Buddiant**
**Dim**

**3. Adolygiad o'r Dyfeisiau Dangos Cyflymder (SIDs)**
Croesawyd Ed Parry i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Mike Elgin. Diolchodd iddo am ei waith gyda'r Dyfeisiau Dangos Cyflymder newydd, ac ychwanegodd fod Cyngor y Dref yn hapus â'r dyfeisiau hyn ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd gan yr Aelodau ddau sylw i'w gwneud.

- Roedd yn ymddangos bod y ddyfais sydd wedi'i gosod ar ffordd yr A547 wrth deithio o Alltmelyd i gyfeiriad Rhuddlan yn rhy agos at y clwb golff a gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl ei symud yn agosach at yr arwydd 30mya?
- Mae'r ddyfais sydd wedi'i gosod ar ffordd yr A5151 neu Ffordd y Rhyl wrth deithio o dref Rhuddlan i gyfeiriad siop Sainsbury's yn ymddangos yn rhy agos at gyffordd Ffordd yr Ucheldir a gofynnodd yr Aelodau a fyddai'n bosibl ei symud yn agosach at yr eiddo o'r enw The Rise?

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â ffordd ymadael Ffordd yr Ucheldir, a'r gofyniad i'r ddyfais dangos cyflymder gofnodi cyflymder y rheini sy'n teithio yn yr ardal 30mya, bydd Ed Parry yn trafod yr uchod gyda'i gydweithwyr ac yn adrodd yn ôl.
Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts a ellid defnyddio lleiniau clustogi er mwyn helpu i ostwng cyflymder y traffig, er nad oedd yn sicr sut beth oedd llain o'r fath. Gofynnodd a fyddai'n bosibl defnyddio'r rhain ar Ffordd Abergele neu'r ffordd rhwng Alltmelyd a

Rhuddlan. Dywedodd Ed Parry fod lleiniau clustogi yn helpu i ostwng cyflymder a bydd yn trafod yn ddarpariaeth yn Rhuddlan gyda'i gydweithwyr ac yn adrodd yn ôl.
**Argymhelliad** – bod swyddogion CSDd yn adrodd yn ôl ar yr uchod a bydd yr wybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn pan gaiff ei derbyn.
Gofynnodd y Clerc i Ed Parry o fyddai'n bosibl derbyn yr anfoneb ar gyfer y ddyfais newydd cyn cyfarfod llawn y Cyngor ddydd Iau fel bod modd i'r Aelodau gymeradwyo taliad o gyllideb 2022/3. Bydd Ed Parry yn siarad â'i gydweithwyr i weld a yw hyn yn bosibl.
Gofynnodd y Cynghorydd Arwel Roberts a fyddai'n bosibl i CSDd ystyried darparu dyfais arall ar yr A5151 neu'r Ffordd Newydd wrth deithio o gyfeiriad Rhuddlan i Dyserth. Hefyd, gofynnodd y Cynghorydd Mike Elgin a fyddai'n bosibl cynnal arolwg yn yr ardal hon i fesur y data cyflymder, ac awgrymodd y Clerc y gellid trefnu cyfarfod safle i ystyried y materion. Bydd Ed Parry yn trefnu hyn.
**Argymhelliad** – cymeradwyo cynnal cyfarfod ar Ffordd Newydd gyda CSDd i ystyried gosod dyfais dangos cyflymder arall i ddal cerbydau sy'n goryrru o dref Rhuddlan i gyfeiriad Dyserth.

**4. Cystadleuaeth Dylunio Poster**
Gwnaeth y Cynghorydd Mike Elgin atgoffa'r gweithgor o'r gystadleuaeth lwyddiannus flaenorol i blant ddylunio poster yn atal goryrru. Roedd posteri'r enillwyr wedi cael eu paentio ar yr arosfannau bysiau lleol. Nodwyd nad oedd y posteri wedi cael eu fandaleiddio a bod plant yn dda am atgoffa eu rhieni i beidio â goryrru wrth yrru fel teulu. Felly, mae'n bosibl bod hwn yn amser da i ystyried cynnal cystadleuaeth dylunio poster newydd gan roi sylw efallai i'r terfyn cyflymder newydd cenedlaethol o 20mya a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Medi 2023. Gallai hefyd fod yn gyfle i atgoffa pobl o'r angen i leihau llygredd o gerbydau.
Aeth yr Aelodau ymlaen i drafod ble ddylai posteri'r enillwyr gael eu harddangos: ar bolion lampau, dodrefn stryd, neu yn lle'r posteri presennol yn yr arosfannau bysiau. Mynegwyd pryderon ynglŷn â maint y posteri, cefnogaeth CSDd i'r gystadleuaeth, a faint o strydoedd ddylai gael eu cynnwys y tro hwn, a chyfeiriwyd yn benodol at Ffordd yr Ucheldir.
**Argymhelliad** – Bod Cyngor y Dref yn cymeradwyo cynnal cystadleuaeth dylunio poster i blant a bod y posteri buddugol yn cael eu paentio ar yr arosfannau bysiau unwaith eto. Byddai'r gystadleuaeth yn cael ei chynnal ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2023/4 ym mis Medi. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ganolbwyntio ar y terfyn cyflymder 20mya.
**Argymhelliad** – Na ddylid defnyddio safleoedd fel polion lamp neu ddodrefn stryd fel mannau posibl i arddangos y posteri.
Trafododd yr Aelodau syniadau posibl eraill ar gyfer gostwng cyflymder a/neu'r terfyn cyflymder cenedlaethol o 20mya. Roedd y rhain yn cynnwys cerflun maint llawn o swyddog heddlu, darparu lleiniau clustogi yn enwedig yn yr ardaloedd lle bydd cyflymder yn cael ei ostwng o 40mya i'r terfyn cyflymder newydd o 20mya, a sticeri i'w gosod yn ffenestri cefn cerbydau y gellid eu dosbarthu'n lleol.
**Argymhelliad** – Bod y Cyngor yn ystyried y syniadau hyn.

**5. Cyflwyno Terfyn Cyflymder Cenedlaethol 20mya yn Rhuddlan**
Nid oedd Ed Parry yn gyfarwydd â'r mater hwn gan fod swyddogion eraill yn gweithio yn y maes hwn, ond dywedodd fod llawer o waith yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer y terfyn cyflymder newydd a sut bydd yn cael ei roi ar waith ar ôl dod i rym ar 17 Medi. Cyfeiriwyd at y nodyn briffio a ddosbarthwyd i'r gweithgor. Gofynnodd yr Aelodau pryd y byddai'r

terfyn cyflymder yn cael ei weithredu yn Rhuddlan. Nid oedd Ed Parry yn gwybod am unrhyw benderfyniadau yn ymwneud â hyn, nac unrhyw ddyddiadau penodol.
Dywedodd Aelod fod e-feiciau yn dod yn bryder cynyddol yn Rhuddlan oherwydd eu cyflymder a'r ffaith eu bod yn defnyddio palmentydd. Roedd Ed Parry yn cydnabod y pryder hwn, a dywedodd fod CSDd yn ystyried cyflwyno polisi e-feiciau ar draws y Sir o ganlyniad i'r cynnydd yn y defnydd o e-feiciau a'r goblygiadau. Nodwyd bod hyn yn fater i'r heddlu ac nid i Gyngor y Dref.

**6. Diweddariad ar y Cynllun Teithio Llesol**
Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau fod tua 40 o bobl wedi mynychu'r ddau weithdy, roedd y rhan fwyaf o'r bobl hyn dros 50 oed a/neu wedi ymddeol. Roedd llawer ohonynt yn byw gerllaw'r ysgol. Mae swyddog arweiniol Sustrans yn absennol o'r gwaith ar hyn o bryd felly nid oedd unrhyw ddiweddariad ar gael ar y canfyddiadau ond gallai olygu cynllun strategol mwy hirdymor yn hytrach na chyflawni'r cynllun yn fuan.
Dywedodd Ed Parry wrth y gweithgor oherwydd nad oes llawer o le ar y briffordd ger yr ysgol ei bod yn anodd cynnig unrhyw atebion peirianyddol i gynorthwyo yn ystod amseroedd gollwng/casglu plant o'r ysgol. Mae'n ymddangos mai'r ffordd orau ymlaen yw bod yr ysgol yn manteisio ar ei pherthynas â rhieni er mwyn eu haddysgu a chodi ymwybyddiaeth o'r broblem.

Diolchodd y Cynghorydd Mike Elgin i Ed Parry am gymryd rhan yn y cyfarfod a dywedodd fod Cyngor Tref Rhuddlan yn werthfawrogol iawn o waith CSDd hyd yma, a gofynnodd iddo gyfleu'r neges honno i'r tîm priffyrdd. Nid nod y Cyngor yw beirniadu CSDd ond yn hytrach cydweithio i ganfod prosiectau priffyrdd addas, ac roedd yn gobeithio y gellid cynnal cyfarfodydd chwarterol yn y dyfodol.
**Argymhelliad** – Bod y Cyngor yn cymeradwyo cynnal cyfarfodydd y gweithgor yn chwarterol.

**5 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** – yn ystod wythnos gyntaf mis Mehefin, y dyddiad i'w gadarnhau.